

CYFARFOD	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD	27 TACHWEDD 2023
TEITL	CYFRIFON TERFYNOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL
PWRPAS	Cyflwyno – <ul style="list-style-type: none">• Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;• Adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru;• Llythyr Cynrychiolaeth
ARGYMHELLIAD	Ystyried adroddiad yr archwilydd, cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon ac awdurdodi'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid i ardystio'r llythyr.
AWDUR	Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi

1. CYFRIFON 2022/23

Mae Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd 2022/23 (ôl- archwiliad) wedi'u amgau yma ac yn rhoi manylion am weithgareddau ariannol y Gronfa yn ystod y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

2. ARCHWILIAD GAN ARCHWILIO CYMRU

Mae'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, a chyflwynir yma adroddiad 'ISA260' ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar ddarganfyddiadau yr archwiliad.

3. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau –

- Nodi'r adroddiad 'ISA 260' gan Archwilio Cymru, a derbyn sylwadau'r archwilwyr,
- Ystyried a cymeradwyo Datganiad o'r Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd ol-archwiliad ar gyfer 2022/23, a
- Awdurdodi'r Cadeirydd a s.151 (yn electroneg) i ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1) ar ôl i'r Pwyllgor Pensiynau gymeradwyo'r uchod.

4. CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN

Bydd Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd hefyd yn cael ei gyflwyno i'r holl gyflogwyr yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gronfa Bensiwn ar 28 Tachwedd 2023.